

Yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) Cymru 2019 mae'n anghyfreithlon i Landlordiaid neu asiantaethau gosod godi ffioedd ar denantiaid ar wahân i nifer o esemptiadau y cyfeirir atynt fel "Taliadau a Ganiateir".

Mae unrhyw daliadau y mae gofyn i denant eu gwneud yn gysylltiedig gyda thenantiaeth byrddaliol sicr nad yw'n Daliad a Ganiateir yn "Daliadau Gwaharddedig" a chyfeirir atynt yn y canllawiau fel "y gwaharddiad".

Daw'r gwaharddiad i rym ar 1 Medi 2019 ac felly bydd ond yn gymwys i gytundebau tenantiaeth byrddaliol sicr yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl y dyddiad hwn.

## **Pa Daliadau a ganiateir y mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn gofyn i Denantiaid eu talu ar hyn o bryd?**

- Rhent
- Blaendal sicrwydd (os oes angen)  
*Os bydd blaendal sicrwydd yn cael ei gymryd bydd yn cael ei gadw a'i ddychwelyd yn unol â thelerau'r Cynllun Diogelu Blaendal. Caiff hyn ei adnabod fel Cynllun Gwarchod. Bydd y Cynllun Diogelu Blaendal yn cadw'r blaendal o fewn telerau'r cynllun. Bydd Adra (Tai) Cyfyngedig yn cadw unrhyw log a enillwyd ar arian a ddidynnwyd yn briodol o'r Blaendal fel y nodwyd yn y cytundeb tenantiaeth.*
- Taliadau diofyn
  - *e.e. Taliadau am fethu apwyntiadau, taliadau am ddifrod pwrpasol i eiddo neu ddifrod y gellid fod wedi'i osgoi, taliad am oriadau eraill (os ydych wedi colli goriadau), taliad am ffioedd argyfwng/tu allan i oriau swyddfa arferol ayyb. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.*
- Gwasanaethau Cyfathrebu (os oes angen)
- Cyfleustodau (os oes angen)  
*Nwy trydan neu danwydd arall, dŵr, carthffosiaeth a'r fargen werdd*

## **Pa daliadau eraill sy'n dod o dan y diffiniad o Daliadau a Ganiateir, ond nad yw Adra (Tai) Cyfyngedig yn codi tâl oni bai y nodir yn eich cytundeb tenantiaeth?**

- Blaendal cadw  
*Mae hwn yn ad-daladwy ac yn cael ei gapio ar rent un wythnos*
- Treth y Cyngor
- Trwydded Teledu

## **Beth y mae'r ddeddf yn ei wahardd (Taliad Gwaharddedig)**

Caiff unrhyw beth nad yw'n daliad a Ganiateir ei wahardd, h.y. Taliad Gwaharddedig.

*e.e. Mae Taliadau Gwaharddedig yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, daliadau yn gysylltiedig â chytundebau tenantiaeth fel ffioedd symud i mewn, ffioedd symud allan, ffioedd gweinyddol, ffioedd rhestrau, ffioedd gwarantwr ayyb.*

## **Gwybodaeth bellach**

Gellir darganfod gwybodaeth bellach ar gyfer tenantiaid yma:

<https://gov.wales/letting-fees-guidance-tenants>